Cofion a Chyfarchion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth Mr Robert N. Lloyd (Llanfair) bore Nadolig. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r plant a'u teuluoedd, ac â'i chwaer Ann Morris (Llansannan), a'i frawd Peter Lloyd (Groes), a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Gweddïwn y bydd Duw yn cysgodi drostynt dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn. Trist hefyd oeddem o glywed am farwolaeth Mrs Rhiannon Evans (Llansannan) y penwythnos diwethaf wedi cyfnod o waeledd. Cydymdeimlwn yn fawr â'r plant ac â gweddill y teulu, a gweddïwn y byddant hwythau yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion at Bob Edwards (Groes) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd a Morfudd Jones (Llannefydd) sydd bellach yn cael gofal yn yr Inffirmari. Dymunwn wellhad buan i'r ddau ac i bawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion hefyd at ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal, rhai ohonynt yno dros dro ac eraill wedi cartrefu yno – Mrs Mair Williams (Llansannan); Mrs Gwenllian Jones a Mrs Gwyneth Griffiths (Henllan); Mrs Megan Evans (Llansannan); a Mr Glyn Williams (Cefn Meiriadog). Gweddïwn ar i Dduw eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni y flwyddyn hon eto.

Llongyfarchiadau i Dafydd Owen (Hiraethog) a Sian ar eu dyweddïad. Dymunwn yn dda i'r ddau ohonynt, a gweddïwn am fendith Duw ar eu perthynas.

Adnoddau defnyddiol

Mae gan y Cyngor Ysgolion Sul bump o wefannau y mae'n gyfrifol amdanynt:

- www.gair.cymru – gwefan sy'n cynnwys deunydd Cristnogol Cymraeg i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim, gan gynnwys gwersi Ysgol Sul, gwasanaethau ar gyfer cynnal oedfaon, gweddïau a myfyrdodau, ffilmiau, cyflwyniadau PowerPoint, deunydd defosiwn dyddiol, gwasanaethau ar gyfer ysgolion a sgyrsiau plant.
- www.beibl.net – gwefan sy'n cynnwys testun y Beibl cyfoes beibl.net ynghyd â llawer o adnoddau cysylltiol eraill.
- www.gobaith.cymru – gwefan sy'n cynnwys dros fil o emynau a chaneuon Cristnogol cyfoes ar ffurf geiriau yn unig, ac fel ffeiliau PowerPoint y mae modd eu lawrlwytho yn rhad ac am ddim.
- www.ysgolsul.com – gwefan swyddogol y Cyngor sy'n cynnwys gwybodaeth a newyddion am eu gwaith yn ogystal â siop ar-lein a siop ddigidol i brynu llyfrau ac adnoddau digidol i'w lawr-lwytho.
- www.cristnogaeth.cymru – gwefan gyffredinol sy'n ffynhonnell gwybodaeth am bopeth ac unrhyw beth yn ymwneud â Christnogaeth yng Nghymru.

Llais Bro Aled

Ionawr 5ed a 12fed, 2020

DILYNWCH NI AR TWITTER:
@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org* *hyfforddiantdawn.com*

Croeso cynnes i'n hoedfaon a blwyddyn newydd fendithiol i bawb o ddarllenwyr Llais Bro Aled. Gwyddom am nifer o'n plith a wynebodd brofedigaeth dros yr wythnosau diwethaf ac wrth i ni gydymdeimlo â'r teuluoedd, rydym am barhau i weddïo ar i'r Arglwydd a'i gynhaliaeth fod yn amlwg i bawb sy'n profi hiraeth am anwyliaid.

Wn i ddim faint ohonoch a ymunodd yn y gwylio, ond mae'n debyg mai'r rhaglen gomedi *Gavin and Stacey* oedd y rhaglen deledu fwyaf poblogaidd dros gyfnod y Nadolig. Ac yn ôl yr ystadegau, llwyddodd i ddenu mwy o wylwyr nag unrhyw raglen arall ar y teledu ers blynyddoedd lawer. Rhaid i mi gyfaddef nad ydw i'n ffan mawr o'r gyfres, ond sylwais ar un olygfa yn arbennig lle'r oedd y cymeriadau Gavin a Stacey yn hel atgofion am fod ar lan y môr yn y Barri. Yno ar ddechrau'r gyfres, (flynyddoedd yn ôl bellach!) dywedodd un cymeriad wrth y llall – os wnei di ddweud dy fod yn fy ngharu, fe atebaf i'r un peth. Un yn gorfod mentro i ddechrau yn y gobaith y byddai'r llall yn cadw at y fargen!

Diolch byth nad felly mae cariad Duw yn cael ei ddisgrifio i ni yn y Beibl na'i gyflwyno i'r ddynolryw trwy'r Arglwydd Iesu Grist! Na, egwyddor dra gwahanol sydd i'w chael wrth i Fab Duw ddod i'r byd i achub pechaduriaid euog a'i galw i fod yn ddisgyblion iddo'i hun. Yn hytrach na galw pobl i fentro'n ddall gan obeithio'r gorau beth fydd y canlyniadau, mae Duw yn gweithredu i ddechrau, ac yna'n galw pobl i ymateb i'w wahoddiad cariadus. Ac mae'r neges yma i'w gweld trwy gydol y Beibl. Ystyriwch wrth i ni gychwyn blwyddyn newydd yr anogaeth hon gan yr Apostol Paul yn Rhufeiniaid 12:1 - *'Felly, am fod Duw wedi bod mor drugarog wrthoch chi, frodyr a chwiorydd, dw i'n apelio ar i chi roi eich hunain yn llwyr i Dduw. Cyflwyno eich hunain iddo yn aberth byw – un sy'n lân ac yn dderbyniol ganddo. Dyna beth ydy addoliad go iawn!'*

Pam mae'r Cristion yn cael ei annog i ildio'i hun yn llwyr i Dduw? Ar sail beth mae Duw wedi ei wneud yn barod – dangosodd ei drugaredd rhyfeddol a'i gariad tuag atom wrth i Iesu ddod i fyw, marw ac atgyfodi drosom. A thrwy wneud hyn, rhoddodd Iesu ei hun yn llwyr er mwyn delio â phechod, a dileu'r elyniaeth oedd rhwng y ddynoliaeth a Duw. Felly, er bod ildio'n hunain yn llwyr i Dduw yn amlwg yn weithred o ffydd, nid yw'n naid i'r tywyllwch oherwydd rydym eisoes wedi gweld mor drugarog yw'r Un sy'n ein galw ato trwy ei Fab. 'Diolch Iddo byth am gofio llwch y llawr!'

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 5ed	➢ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 gyda Rhodri yn arwain. Edrychwn ymlaen hefyd i gael cwmni Carwyn Graves, Cydlynydd Cymru i'r *Wycliffe Bible Translators* fydd yn sôn am waith yr elusen yn cyfieithu y Beibl i ieithoedd gwahanol ar draws y byd.
Mercher – 8fed	➢ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
Sul nesaf – 12fed	➢ **Bore Bro Aled** yn **Llansannan** am 10.30. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Festri yn ystod y gwasanaeth a bydd paned i bawb i ddilyn yr oedfa. Ni fydd oedfa am 6.00.
Mercher – 15fed	➢ **"Beth yw eglwys?"** yn Llansannan am 7.30. Cyfle i drafod beth mae'r Beibl yn ei ddweud ac i ystyried yr her i'r eglwys heddiw. Croeso i bawb.
Iau – 16eg	➢ **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
	➢ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llannefydd am 7.00.
Sul canlynol – 19eg	➢ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Rhodri yn pregethu.

Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair

Sul yma – 5ed	➢ Bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llansannan am 9.30 ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn. Ni fydd Ysgol Sul i'r plant.
	➢ Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a bydd Celfyn Williams yn arwain oedfa yn Llanfair am 11.00.
Mercher – 8fed	➢ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) erbyn dydd Sul (5ed), os gwelwch yn dda.
Sul nesaf – 12fed	➢ Bore Bro Aled yn Llansannan am 10.30. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Festri yn ystod y gwasanaeth a bydd paned i bawb i ddilyn yr oedfa.
Mercher – 15fed	➢ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) erbyn dydd Sul (12fed), os gwelwch yn dda.
Sul canlynol – 19eg	➢ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9.30 a'r Ysgol Sul yn dilyn.
	➢ Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion yn Llansannan am 10.00 a bydd Rhodri yn arwain oedfa yno am 11.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydredeg.

Llannefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes

Sul yma – 5ed	➢ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 9.30.
	➢ Bydd Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 10.45.
	➢ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llannefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydredeg.
Sul nesaf – 12fed	➢ Bore Bro Aled yn Llansannan am 10.30. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Festri yn ystod y gwasanaeth a bydd paned i bawb i ddilyn yr oedfa.
Gwener – 17eg	➢ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llannefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) erbyn dydd Sul (12fed), os gwelwch yn dda. Croeso i bawb.
Sul canlynol – 19eg	➢ Bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 9.30 a'r Ysgol Sul yn cydredeg.
	➢ Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 a bydd y Parch. Dafydd Job yn arwain oedfa yno am 11.00.

Peniel, Saron a Nantglyn

Sul yma – 5ed	➢ Bydd Rhodri yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.
Gwener – 10fed	➢ Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yng Nghapel Saron am 7.00 gyda'r Parch. R. W. Jones, Wrecsam yn pregethu.
Sul nesaf – 12fed	➢ Bore Bro Aled yn Llansannan am 10.30. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Festri yn ystod y gwasanaeth a bydd paned i bawb i ddilyn yr oedfa.
Sul canlynol – 19eg	➢ Bydd y Parch. Eric Greene yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 07814 660291

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (15fed), os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.